# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2017/18

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Robin Williams**
**Grŵp: Plaid Cymru** **Ward: Aethwy**

## 1 - **Rôl a Chyfrifoldebau**

| **Rhwng Mai 2017 a Mawrth 2018, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| Cyngor | 9 | 9 |
| Pwyllgor Apeliadau | 0 | 0 |
| Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | 6 | 5 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd | 5 | 2 |
| Pwyllgor Trwyddedu | 1 | 1 |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | 6 | 5 |
| Panel Tâl a Graddfeydd | 0 | 0 |
| Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | 11 | 10 |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall trefniadau cyflogaeth Aelod hefyd effeithio ar lefelau presenoldeb.<br><br>*Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.* | | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 4 allan o'r 6 cyfarfod a drefnwyd. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau'r Ymddiriedolaeth a ddim wedi mynychu'r 1 cyfarfod a drefnwyd. Yn ogystal rydw i'n aelod o'r Panel Sgriwtini Cyllid, a'r Bwrdd Trawsnewid Addysg.

| **Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:** | **Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| Cyd-bwyllgor Ymgynghorol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | 1 | 0 |
| Llywodraethwr – Ysgol Gynradd y Borth | 2 | 2 |
| Llywodraethwr - Ysgol David Hughes Porthaethwy | 3 | 3 |

Rydw i hefyd yn aelod o Is-bwyllgorau Adeiladau, a Chyllid a Phersonél Llywodraethwyr Ysgol David Hughes.

Oherwydd fy mhrofiad proffesiynol rydw i wedi canolbwyntio ar feysydd cyllid a sgriwtini cyllid/archwilio.

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Cefais fy ethol ym mis Mai 2017 a chefais y fraint a'r cyfrifoldeb o gynrychioli trigolion Ward Aethwy ochr yn ochr â fy nghydweithwyr. Yn ogystal â gwasanaethu ar y pwyllgorau uchod rydw i hefyd yn mynychu nifer o gyfarfodydd eraill yn rheolaidd ym mhob rhan o'r ward.

Rydw i'n gynghorydd tref ar Gyngor Tref Porthaethwy a byddaf yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor Cyllid a Chynllunio yn rheolaidd. O bryd i'w gilydd byddaf yn mynychu Cyfarfodydd Cyngor Cymuned yn Llanfairpwll a Phenmynydd. Roeddwn yn bresennol mewn tri chyfarfod cyhoeddus yn ymwneud â safleoedd arfaethedig ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ym Mhenhesgyn a Star. Yn ogystal rydw i wedi mynychu cyfarfodydd gyda Chyfeillion Llyfrgell Porthaethwy a Threftadaeth Menai, a chefais wahoddiad gan bwyllgor *Raft Run* Porthaethwy i gyflwyno rhai o'u gwobrwyon elusennol yn ystod eu noson wobrwyo flynyddol.

Cafodd rhannau o Borthaethwy a Llanfairpwll eu heffeithio gan lifogydd ar noson yr 22ain o Dachwedd 2017, a bûm yn cynorthwyo trigolion Pen Lôn, Lôn y Waen a Lôn y Gamfa'r noson honno mewn ymgais i leihau difrod i eiddo. Yn anffodus, ofer oedd ein hymdrechion ond yn dilyn hynny rydw i wedi rhoi cymorth i drigolion yn ystod yr ymgyrch lanhau ac i sicrhau fod gwaith adfer yn digwydd yn yr ardal. Yn ogystal, ar 8 Ionawr 2018 trefnais gyfarfod gyda thrigolion a gafodd eu heffeithio ym Mhorthaethwy i drafod eu pryderon ac i ddelio a'u cwestiynau, ac rydw i wedi bod yn eu diweddaru'n rheolaidd ar e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol.

Yn ogystal, ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, ymwelais â nifer o drigolion gafodd eu heffeithio ym Mhorthaethwy gyda'r Aelod Cynulliad lleol, Rhun ap Iorwerth.

Rydw i wedi ymdrin â nifer o faterion ar ran trigolion unigol yn y ward yn ymwneud â thai, cynllunio, rheoli pla, ymddygiad gwrthgymdeithasol, priffyrdd a materion amgylcheddol.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rydw i wedi cwblhau hyfforddiant yn Academi Arweinyddiaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a byddaf yn graddio ym mis Mehefin 2018. Yn ogystal mynychais ddigwyddiad Cynefino Rhanbarthol Llywodraeth Leol Cymru ym mis Tachwedd 2017.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad i Wasanaethau'r Awdurdod | 11/05/2017 |
| Cyflwyniad i Wasanaethau'r Awdurdod | 18/05/2017 |
| Sesiwn Briffio – Cynllun Corfforaethol a'r Côd | 18/05/2017 |
| Cyllid gan gynnwys Cyllidebu a Thrysorlys | 25/05/2017 |
| Hyfforddiant IPad | 31/05/2017 |

| | |
|---|---|
| Diogelu Sylfaenol | 01/06/2017 |
| Hyfforddiant Cynllunio | 01/06/2017 |
| Rhoddion, Lletygarwch a Datganiadau o Ddiddordeb | 02/06/2017 |
| Y Cyfansoddiad | 05/06/2017 |
| Deddf Tai | 06/07/2017 |
| Hyfforddiant Diogelu | 07/07/2017 |
| Archwilio Effeithiol | 15/09/2017 |
| Trais a cham drin domestig yn erbyn merched | 19/10/2017 |
| Cwestiynu effeithiol yn Sgriwtini | 04/12/2017 |
| Hyfforddiant Materion Cynllunio | 05/03/2018 |
| Hyfforddiant Trwyddedu | 13/03/2018 |
| Hyfforddiant ACE | 28/03/2018 |
| Sesiynau Briffio Aelodau (11 allan o 12) | Mai 2017 – Mawrth 2018 |
| *Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.* | |

Fel Cynghorydd newydd ei ethol ym mis Mai 2017 rydw i wedi buddsoddi llawer o amser yn fy natblygiad o ran gwybodaeth a sgiliau a chefais fy newis i dreialu modiwlau dysgu ar-lein newydd y Cyngor ar gyfer aelodau etholedig.

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Mynychais yr Eisteddfod Genedlaethol ym Modedern, Sioe Môn ym Mona, dadorchuddio plac i goffau Syr Kyffin Williams ym Mhwllfanogl, Llanfairpwll, a Gwasanaeth Sul y Cofio Ynys Tysilio ym Mhorthaethwy.

Gellir cysylltu â mi dros y ffôn, e-bost neu'r cyfryngau cymdeithasol, ac rydw i bob amser yn ceisio ymateb i gwestiynau neu bryderon a godir gan drigolion cyn gynted ag y gallaf.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=906&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Robin Williams** | **Ebrill 2018** |